



Gloywi iaith Newyddion

Blwyddyn 2 Gwers 9
26 Ebrill 2016

Nod ac Amcanion

- Nod y wers heddiw ydy:
 - *Trafod iaith y newyddion*
 - *Trafod iaith cyflwyno newyddion personol plant*
- Amcanion:
 - *Cywair ieithyddol y newyddion*
 - *Trefnolion*
 - *Y Goddefol*
 - *Gorffennol y ferf 'bod'*
 - *Creu bwletin newyddion ar gyfer y dosbarth*

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Ysgrifennu Blwyddyn 6: “...addasu
arddull ysgrifennu i’r darllenydd a’r diben
e.e. arddull ffurfiol ar gyfer darllenydd
anhysbys”



Torri'r Garw: Trafod

- Sut byddech chi'n defnyddio'r newyddion gyda'ch dosbarthiadau chi?



Cywair ieithyddol y newyddion

Ydych chi'n cofio beth yw “cywair”?

‘Iaith fydd yn gweddu i'r gynulleidfa
ac yn addas i'r pwrpas.’

(Gwefan Canolfan Bedwyr, www.bangor.ac.uk)

- Ffurfiol
- **Lled-ffurfiol**
- Safonol
- Anffurfiol
- Tafodiaith
- Bratiaith





CANLLAWIAU IAITH

(Ffurio'r ffurfiau)

- Mae'n hollbwysig ysgrifennu'n **glir a chryno**. Dylai'r darn fod yn hawdd ei ddeall ac mewn **iaith lafar raenus**. Mae'n bwysig peidio ag ysgrifennu mewn ffordd rhy ffurfiol.
- Defnyddiwch **ferfau cwmpasog**, 'Roedd y carcharor wedi dod i'r llys...' yn hytrach na berfau cryno, cymhleth: 'Daethai'r carcharor i'r llys...'. Gallwch gymysgu'r rhain â berfau cryno syml a hawdd eu deall e.e. 'Caiff y siop newydd ei hagog'.

Bwletin newyddion

- Mae bwletin newyddion yn fodd o nodi prif straeon y dydd o fewn rhaglen fer. Dylai'r bwletin gynnwys holl straeon pwysicaf y dydd, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.



HANFODION Y FFURF

- Dylid cadw'r **brawddegau'n fyr**. Yn fras, mae tri gair mewn sgript yn cymryd tuag eiliad i'w darllen.
- Ni ddylid defnyddio termau gor-dechnegol pan fydd rhai **symlach** ar gael. Y nod yw **cyfathrebu'n glir**. Defnyddiwch 'bwyd' yn hytrach na 'lluniaeth', a 'cartrefi' yn lle 'anheddiadau'.



Sillafu



Sawl 'n' sydd yn y
gair
'penderfynu'?

Oes to bach ar
tŷ?

Beth yw'r
gwahaniaeth
rhwng 'cofrestri' a
'cofrestru'?

Dyblu'r 'n' a 'r' ...

Rhai rheolau i'n helpu i wybod sawl 'n' neu 'r'!

Dywedwch "tôn".

Nawr, dywedwch
"ton"

Beth yw'r
gwahaniaeth?

Nawr, beth sy'n digwydd
pan fyddwn ni'n
ychwanegu sillaf ...

tôn > tonau
ton > tonnau

**Os yw'r llafariad yn hir mewn gair unsill, dydyn ni ddim yn dyblu wrth ychwanegu sillaf,
e.e. môr > moroedd, tôn > tonau,
OND ton > tonnau achos llafariad byr sydd yn y gair unsill.**

Dyblu 'n' a 'r' ...

Os ydyn ni'n ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen yn
'-nt', rydyn ni'n colli'r 't' ac yn dyblu'r 'n',
e.e. cant > cannoedd
punt > punnoedd

Ilwyddiant > Ilwyddiannus

diwylliant > diwylliannol

peiriant > peiriannau

Dyblu 'n' a 'r' ...

Mae'r "n" yn dyblu os ydym yn ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen gyda -en neu -yn:

llythyren – llythrennau

llyfryn – llyfrynnau

dogfen – dogfennau

offeryn – offerynnau



*Mae **emyn**, **gwenyn** a **telyn** yn eithriadau.

Os ydyn ni'n ychwanegu mwy nag un sillaf, does dim angen dyblu'r 'n' –

ysgrifen > ysgrifennu OND ysgrifenyddes

Dyblu 'n' a 'r' ...

Nid yw “n” yn dyblu mewn geiriau sy’n gorffen gyda –**iwn**, –**ion** (benthyciadau o’r Saesneg) os ydym yn ychwanegu sillaf:

cwestiwn – cwesti**n**au cwesti**n**u

ffasiwn – ffasi**n**au ffasi**n**ol

fersiwn - fersi**n**au

Dyblu 'n' a 'r' ...

Mae 'an' (negyddol) o flaen gair sy'n dechrau â 't', 'd' neu 'n' fel arfer yn troi'n 'ann' ...

an + t = annh

an + tebyg = annhebyg

an + d = ann

an + dymunol = annymunol

an + n = ann

an + naturiol = annaturiol

OND os oes cytsain arall yn dilyn y 'd' neu'r 't', yn y ffurf wreiddiol, yna does dim angen dyblu 'n'

e.e. trefn > anh refn.



Dyblu 'n' a 'r' ...

Nid yw “n” yn dyblu o flaen y terfyniadau

-wyr, -ion, -iad

diflannu – diflaniad

offerynnau – offerynwyr

gwynnu – gwynion

gyrru – gyrwyr

Ydy'r geiriau hyn yn gywir?



- anifyr
- anhrefn
- anniddorol
- ysgrifennyddes
- canu

Allwch chi ddweud
pam?

Beth yw ffurf lluosog y geiriau yma?



Man	Môr	Pennawd
Dant	Gyrrwr	Cwestiwn

Dewiswch y ffurfiau cywir ...



1. Mae'r diwydiant yn wynebu nifer o
(doriadau/dorriadau)
2. Mae'n rhaid i chi r penderfyniad
(gwestiynnu/gwestiynu)
3. Mae'r sefyllfa yn (anheg/annheg)
3. Wyt ti wedi dod o hyd i'r?
(cyfrifiaduron/cyfrifiadurron)

'i' neu 'u'??



- 'o' yng nghanol berfenw = 'i' ar y diwedd, e.e. colli, pori
- 🎬 'a' yng nghanol berfenw = 'u' ar y diwedd, e.e. canu, taranu
- 🎬 'y' neu 'w' yng nghanol berfenw = 'u' ar y diwedd, e.e. cysgu, chwyrnu
- 🎬 'w' yn agos at ddiwedd berfenw = 'i' yn ei dilyn, e.e. berwi, drewi
- Gyda geiriau tebyg eu sain, mae berfenwau fel arfer yn gorffen gydag **u**, ac enwau lluosog yn gorffen gydag **i**, e.e. rhestru (*to list*), rhestri (*lists*)

Trefnolion

Fel y gwyddoch, defnyddir dwy system ar gyfer rhifo yn y Gymraeg:

Y rhifau ugeiniol traddodiadol

Y rhifau degol modern

A'r system ugeiniol
a ddefnyddir gyda threfnolion.



1af y cyntaf	2il yr ail	3ydd y trydydd	4ydd y pedwerydd	5ed y pumed
6ed y chweched	7fed y seithfed	8fed yr wythfed	9fed y nawfed	10fed y degfed
11eg yr unfed ar ddeg	12fed y deuddegfed	13eg y trydydd ar ddeg	14eg y pedwerydd ar ddeg	15fed y pymthegfed
16eg yr unfed ar bymtheg	17eg yr ail ar bymtheg	18fed y deunawfed	19eg y pedwerydd ar bymtheg	20fed yr ugeinfed
21ain yr unfed ar hugain	22ain yr ail ar hugain	23ain y trydydd ar hugain	24ain y pedwerydd ar hugain	25ain y pumed ar hugain
26ain y chweched ar hugain	27ain y seithfed ar hugain	28ain yr wythfed ar hugain	29ain y nawfed ar hugain	30ain y degfed ar hugain

31ain
yr unfed ar
ddeg ar
hugain

Ionawr
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mai
Mehefin

Gorffennaf
Awst
Medi
Hydref
Tachwedd
Rhagfyr

Y cyntaf o Fawrth
Y cyntaf o fis Mawrth
Mawrth y cyntaf

Mawrth 1af
1 Mawrth

Taflen waith

A'r dyddiad heddiw yw...

1 ^{af} Y cyntaf	2 ^{ll} Yr ail	3 ^{ydd} Y trydydd	4 ^{ydd} Y pedwerydd	5 ^{ed} Y pumed
6 ^{ed} Y chweched	7 ^{fed} Y seithfed	8 ^{fed} Yr wythfed	9 ^{fed} Y nawfed	10 ^{fed} Y degfed
11 ^{eg} Yr unfed ar ddeg	12 ^{fed} Y deuddegfed	13 ^{eg} Y trydydd ar ddeg	14 ^{eg} Y pedwerydd ar ddeg	15 ^{fed} Y pymthegfed
16 ^{eg} Yr unfed ar bymtheg	17 ^{eg} Yr ail ar bymtheg	18 ^{fed} Y deunawfed	19 ^{eg} Y pedwerydd ar bymtheg	20 ^{fed} Yr ugeinfed
21 ^{ain} Yr unfed ar hugain	22 ^{ain} Yr ail ar hugain	23 ^{ain} Y trydydd ar hugain	24 ^{ain} Y pedwerydd ar hugain	25 ^{ain} Y pumed ar hugain
26 ^{ain} Y chweched ar hugain	27 ^{ain} Y seithfed ar hugain	28 ^{ain} Yr wythfed ar hugain	29 ^{ain} Y nawfed ar hugain	30 ^{ain} Y degfed ar hugain

A decorative border on the left side of the slide, featuring a green chalkboard texture. Two pieces of pink chalk are visible, one standing upright and one lying horizontally. There are some white chalk marks on the board, including a curved line and a straight line.

Y Goddefol

Y Goddefol

- Rhywbeth sy'n digwydd i chi.
- Dydych chi ddim yn cymryd rhan yn y weithred.
- Enghreifftiau?

Geni

Magu

Bwrw

Ydych chi'n cofio?

Anffurfiol	Ffurfiol
Ces i	Cefais i
Cest ti	Cefaist ti
Cafodd e/o	Cafodd ef
Cafodd hi	Cafodd hi
Cawson ni	Cawsom ni
Cawsoch chi	Cawsoch chi
Cawson nhw	Cawsant hwy

Ydych chi'n cofio...?

Fy	<i>Fy ngeni</i>	T. Trwynol
Dy	<i>Dy eni</i>	T. Meddal
Ei	<i>Ei eni</i>	T. Meddal
Ei	<i>Ei geni</i>	T. Llaes + h
Ein	<i>Ein geni</i>	+ h
Eich	<i>Eich geni</i>	
Eu	<i>Eu geni</i>	+ h

Ychwanegu goddrych...

Gallwn ychwanegu'r goddrych ar ddiwedd y frawddeg trwy ychwanegu ffurf briodol 'gan ...'

Cynhaliwyd cyngerdd yn y neuadd neithiwr **gan** Gôr Meibion Llanelli.

Cafodd cyngerdd ei gynnal yn y neuadd neithiwr **ganddyn** nhw.

SYLWCH!

**Nid yw gwrthrych berf
amhersonol ddim yn treiglo**

Llythyr oddi wrth Nina Bawden, awdur Carrie's War

Annwyl blant,

Cefais fy anfon fel faciwî gyda fy ysgol fel y rhan fwyaf o'r plant hynaf. I ddechrau aethon ni i Ipswich, ac yna, pan ymosododd Hitler ar yr Iseldiroedd **cawson ni ein hanfon** i Gymru. Doedden ni ddim yn gwybod mai i Gymru roedden ni'n mynd, dim ond gwybod ein bod ni'n 'mynd tua'r gorllewin'. **Cawson ni ein rhoi** ar drên gyda chas ddillad bach a'n masgiau nwy - diolch byth, **fuodd** dim rhaid eu defnyddio.

Ar ôl cyrraedd Cymru **buon** ni'n cerdded ar hyd llwybr lludw a chyrraedd neuadd eglwys lle roedd llawer o fenywod yn aros amdanom ni gyda the a bisgedi - ac i ddewis y faciwîs ro'n nhw'n hoffi eu golwg nhw fwyaf. Roeddwn i gyda fy ffrind gorau, felly roedd y cyfan yn fwy o hwyl nag y byddai wedi bod petawn i wedi bod ar fy mhen fy hun.



Bu fy ffrind Jean a finnau'n aros mewn rhyw saith lle yn ystod y blynyddoedd **buon ni** yn Aberdâr; roedd ein rhieni maeth i gyd yn garedig, a gwnaethon nhw bopeth gallen nhw droston ni, ond fe gawson ni sawl profiad rhyfedd. Roedd drws un tŷ lle **buon** ni'n aros yn cael ei gadw wedi'i gloi a'i folttio; pan fydden ni'n dod nôl o'r ysgol ac yn canu'r gloch byddai'n cymryd rhyw ugain munud i'r drws gael ei agor.

Mewn tŷ arall, dim ond unwaith y dydd roedden ni'n cael dringo'r grisiau rhag ofn i ni dreulio'r carped. Ac mewn lle arall, roedd ein tad maeth, a oedd yn löwr, yn dod nôl o'i waith am chwech y nos ac yn sefyll yn noeth mewn bath tun yn un rhan o'r gegin tra arllwysai ei wraig ddŵr o fwced drosto, a ninnau'n gwneud ein gwaith cartref wrth y ford.

Roedd y cyfan yn antur yn ei ffordd ei hun.
Cawson ni weld y tu mewn i gartrefi a theuluoedd
pobl eraill, rhywbeth defnyddiol iawn i fi fel
awdur!

Gobeithio bydd yr wybodaeth yma'n ddefnyddiol.
Dymuniadau gorau
Nina Bawden



Creu bwletin newyddion ar gyfer y dosbarth

- Ewch i Golwg360 ar yr iPads
- Chwiliwch am stori sydd yn y newyddion ar hyn o bryd
- Paratowch fwletin newyddion i'w adrodd i weddill y dosbarth.

Golwg360.cymru



Ffurio'r Ffurfiau

DEUNYDD SBARDUN: BWLETIN 1

Lluniwch fwletin newyddion yn seiliedig ar y wybodaeth isod. Ceisiwch ddewis pum stori berthnasol. Gallwch flaenoriaethau a dewis a dethol y ffeithiau. Gallwch hefyd dynnu ar eich profiadau/gwybodaeth bersonol pan fo'n briodol. Dylech ysgrifennu tua thudalen.



Bwletin 2pm. Bwletin nesaf am 3pm



Stori A

Pleidlais - 10pm, Senedd, Llundain

- Pwnc: Cynllun y Llywodraeth i ad-drefnu taliadau budd-dal
- Dadl newydd ddechrau
- Tŷ'r Cyffredin yn weddol lawn o Aelodau Seneddol
- Llywodraeth: system bresennol yn gostus
- Gwrthbleidiau: Miliynau am fod ar eu colled



Stori D

Pwll Nofio Y Wernen, Maesteg ar gau

- Dim nofio am bythefnos
- Gwaith cynnal a chadw
- Gwella'r ystafelloedd newid

Cyngor Pen-y-bont:

- Angen datblygu
- Gwario £30,000
- Modd defnyddio Pwll Nofio Port Talbot

Y tro nesaf

27/4/17

CJ 6

Adolygu Cyffredinol

Awdit

